Adroddiad ar

Cylch Meithrin Ffestiniog

Cylch Meithrin Ffestiniog
Clwb Chwaraeon
Llan Ffestiniog
Gwynedd
LL41 4ND

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Ffestiniog

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ffestiniog |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Ffestiniog |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Manon Morris |
| Person â gofal | Ceri Hughes |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2- 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 11 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 08:30 – 15:30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolwg cyntaf ar ôl cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/05/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/01/2025 |
| Ddim yn berthnasol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau’n effeithiol er mwyn cynllunio’r camau nesaf yn natblygiad y plant.

A2. Datblygu’r ardal allanol er mwyn darparu cyfleoedd mwy cyfoethog i blant i ddatblygu eu medrau.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn mwynhau y rhyddid i symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn helpu eu hunain i adnoddau o fewn yr ardaloedd chwarae yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn symud o'r bwrdd toes i'r ardal chwarae rôl ac yna i adeiladu tŵr allan o flociau. Mae bron bob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn mwynhau arferion y bore cyn mynd ati i sgwrsio a chwerthin gyda'u ffrindiau. Maent yn gwybod caiff eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried yn llawn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus yn dewis ble i eistedd wrth y bwrdd yn ystod cyfnodau bwyta ac yn gyfforddus i ofyn i fynd i'r tŷ bach ar eu pennau eu hunain.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym ac maent yn hapus yn y lleoliad. Maent yn cyrraedd yn gwenu ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu o'u rhieni a'u gofalwyr. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yng ngofal yr ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn mwynhau'r cynhesrwydd wrth iddynt dreulio amser yn gwrando ar storïau, ac maent yn awyddus i rannu newyddion o adref. Mae plant yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn gyfarwydd a threfniadau dyddiol y lleoliad. Maent yn cymdeithasu, chwerthin a chanu wrth chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasau agos a chynnes gyda'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Mae'r plant yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael croeso cynnes, sgwrs ddiddorol a chwpanaid o goffi o'r ardal chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol wrth drafod a rhannu yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn hyderus yn defnyddio'r amserydd tywod wrth gymryd tro i ddefnyddio'r beiciau. Maent yn frwdfrydig i atgoffa'r ymarferwyr pryd mae'n amser i gyfnewid ar ôl aros eu tro. Mae'r rhan fwyaf o blant yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft, trwy gydweithio i adeiladu tŵr o flociau a thrwy helpu ei gilydd i wisgo esgidiau. Mae bron pob plentyn yn hynod gyfeillgar a chwrtais i'w gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio am amser estynedig. Maent yn cymryd eu hamser i greu cacennau pen-blwydd allan o does ac yn teimlo'n hyderus i symud yr adnoddau i ardaloedd gwahanol. Er enghraifft, maent yn canu pen-blwydd hapus wrth gyflwyno'r gacen i weddill y grŵp, sydd yn eistedd yn gyffrous yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol, llythrennedd, rhifedd a'u creadigrwydd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn mwynhau canolbwyntio am gyfnodau hir wrth rasio ei gilydd ar y beiciau, trwy wrando ar ganeuon Cymreig a chreu siapiau yn defnyddio paent a chyfarpar celf a chrefft.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt gadw eu cotiau a'u bagiau ac wrth ddefnyddio'r tŷ bach a golchi a sychu eu dwylo. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gyflawni tasgau fel brwsio dannedd ac hunan-gofrestru. Maent yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu a dangos balchder wrth ddatblygu eu hannibyniaeth yn bellach.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn adeiladu hyder wrth ryngweithio gyda'u ffrindiau ac mae eu medrau'n datblygu'n dda. Mae llawer o'r plant yn siarad Cymraeg yn naturiol gyda'i gilydd gan fod y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r plant sy'n newydd i'r Gymraeg yn dod i ddeall yr iaith yn gyflym gan eu bod yn cael eu trochi yn yr iaith yn barhaus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi barn yn synhwyrol wrth chwarae yn ardaloedd y ddarpariaeth.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n aeddfed ar ei gilydd ac ar ymarferwyr, er enghraifft wrth eistedd yn glud a thrafod cymeriadau stori. Maent yn mynd at lyfrau yn ddigymell, gan edrych ar y lluniau a holi cwestiynau am y cymeriadau. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau wrth gofrestru'n y bore. Mae lleiafrif yn efelychu ymarferwyr trwy ddal y llyfr ac adrodd y stori wrth eu ffrindiau, gan holi cwestiwn a disgwyl am ateb gan y plant. Mae llawer yn creu marciau'n annibynnol ar bapur mawr neu ar fwrdd du gan ddefnyddio gwahanol offer. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i wahoddiadau i ddysgu, er enghraifft wrth greu bwydlen ddychmygol eu hunain yn y tŷ bach twt.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda wrth iddynt fagu hyder i ddefnyddio gwahanol deganau ac offer. Maent yn adnabod rhifau gwahanol sydd wedi eu gosod ar offer mân, ac yn cyfri hyd at bump wrth ganu rhigymau cyfarwydd. Maent yn chwarae gyda gwrthrychau o feintiau gwahanol gan lenwi a gwagio, a defnyddio clorian er mwyn ystyried pwysau gwahanol wrthrychau. Mae llawer yn dewis y lliwiau sy'n apelio atynt er mwyn creu patrymau gyda sbwng ar siâp sgwâr a thriongl.

Mae eu medrau modur mân yn datblygu'n dda ac maent yn mynd i ôl gefeiliau a sisyrnau er mwyn codi offer a thorri papur yn annibynnol. Maent yn cyd chwarae'n fodlon wrth greu tyrrau uchel o flociau plastig, a'u gosod ar olwynion er mwyn eu powlio ar hyd y llawr. Mae medrau digidol llawer o'r plant yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio offer sy'n caniatáu iddynt wrando ar lais ymarferydd yn rhoi cyfarwyddiadau iddynt am sut i gyflawni tasg. Mae llawer yn mwynhau chwarae gyda bysellfwrdd sy'n datblygu eu hymwybyddiaeth o rifau a llythrennau.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn rheoli beiciau'n fedrus gan arafu'n ofalus wrth iddynt gyrraedd trofa ar waelod y buarth. Mae lleiafrif yn

llwyddo i symud ar hyd y wal ddringo ar fuarth yr ysgol, gan gynnal eu hunain yn effeithiol. Mae bron bob plentyn yn chwarae’n glên gyda’i gilydd ac yn ystyried teimladau eu ffrindiau.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a’u diogelwch yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae gan bob ymarferydd dystysgrif cymorth cyntaf ac maent yn dilyn gweithdrefnau’n fanwl ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Maent yn dilyn gweithdrefnau meddyginiaeth yn effeithiol er mwyn sicrhau diogelwch plant. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o weithdrefnau hylendid ac yn eu gweithredu yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau, ac yn gwisgo menig a ffedog wrth ddosbarthu pecynnau bwyd. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn y polisi newid clytiau ac yn cadw cofnodion cywir. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac maent yn sicrhau bod ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle. Maent yn sicrhau bod trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl gyda’r plant ac maent yn eu trin yn garedig. Maent yn rhyngweithio’n naturiol ac yn esbonio a chefnogi’r plant i barchu ei gilydd. Mae bron bob ymarferydd yn gweithredu fel modelau rôl da ac yn rhyngweithio’n gadarnhaol gan wrando, cydweithio ac egluro mewn modd clir a gofalgar. Er enghraifft, wrth i blant gyrraedd, mae ymarferwyr yn eu croesawu’n gynnes ac yn eu hannog i adeiladu eu hyder trwy hunan-gofrestru’n annibynnol. Mae ymarferwyr yn dangos diddordeb wrth wrando, canmol ac ymestyn dealltwriaeth y plant trwy rhyngweithio mewn modd agos a phersonol. Er enghraifft, maent yn esbonio beth sydd yn digwydd nesaf a thrwy hynny maent yn creu ethos gefnogol. Mae ymarferwyr yn eistedd a bwyta eu cinio wrth y bwrdd gyda’r plant. O ganlyniad, maent yn canmol y plant yn gyson, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hunan hyder a’u sgiliau cymdeithasol. Mae ymarferwyr yn annog plant i ystyried eu hymddygiad wrth ddysgu i aros a chymryd eu tro. Maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd rhannu mewn ffordd glir ac yn llwyddo i gael plant i ddeall effaith gadarnhaol ar eraill, er enghraifft, wrth aros tro am gyfarpar wrth y tywod neu wrth aros tro i ddewis stori.

Mae ymarferwyr yn adeiladu perthynas dda iawn gyda’r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u anghenion a’u dymuniadau unigol. Maent yn annog annibyniaeth y plant mewn modd caredig a sensitif ac yn cynnig anogaeth i adeiladu ar eu medrau unigol i feithrin eu hunan-barch. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cefnogi plant i feddwl am eu anghenion fel golchi dwylo neu wisgo cot i fynd allan.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio amrediad buddiol o brofiadau dysgu ar gyfer y plant. Mae ganddynt gysylltiadau agos gyda rhieni a gofalwyr gan holi am ddiddordebau'r plentyn er mwyn sicrhau fod ystod o adnoddau sy'n apelio atynt. Maent yn sicrhau fod teganau ac offer ar gael ar gyfer y plant i fynd atynt fel y dymunant ac mae hyn yn adeiladu hyder ac annibyniaeth y plant yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod cyfnodau estynedig o chwarae rhydd lle mae'r plant yn datblygu dyfalbarhad trwy wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu gwahanol fedrau ar draws yr holl ardaloedd. Maent yn creu cyfleoedd cartrefol i'r plant ddod at ei gilydd i fwynhau straeon, gan adrodd stori'n fyrlymus a holi cwestiynau i annog dychymyg y plant. Maent yn sgwrsio am y ci bach sy'n glanhau ei ddannedd, a phwysigrwydd eu bod hwy'n brwsio eu dannedd yn rheolaidd. Mae cyfleoedd iddynt ddatblygu medrau modur mân trwy ddethol gwahanol offer i greu patrymau a lluniau. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i'r plant greu marciau gyda sialc ar waliau'r ardal allanol.

Mae ymarferwyr yn ysgogi'r plant i ymchwilio yn effeithiol, er enghraifft, wrth weld sawl llond llaw o dywod fydd ei angen i orchuddio dwylo plant. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd i gyfri mewn cyd destun ymarferol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu creadigrwydd, er enghraifft wrth ddefnyddio blawd corn a dŵr i greu plu eira. Mae yn annog y plant i deimlo'r deunydd yn llithro trwy eu bysedd, gan ychwanegu lliwiau er mwyn ymestyn y profiad yn fuddiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau amrediad priodol o offer digidol fel robotiaid rhaglenadwy y gall y plant eu gyrru i wahanol gyfeiriadau. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am amrywiaeth cymdeithasol, moesol diwylliannol ac ysbrydol trwy ddysgu am ddiwylliannau eraill a thrwy drafod amrywiaethau o fewn teuluoedd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio llyfrau stori er mwyn datblygu agwedd garedig a chynhwysol ymysg y plant.

Wrth i'r plant chwarae, mae ymarferwyr yn rhyngweithio â hwy'n effeithiol, gan ymyrryd yn fedrus yn y chwarae er mwyn holi cwestiwn neu ddatblygu'r dysgu ymhellach. Pan fo angen, maent yn addysgu medrau penodol, ac yna'n caniatáu i'r plant barhau i chwarae a magu annibyniaeth. Maent yn bwydo iaith yn barhaus er mwyn magu hyder llafar ymysg y plant. Rhoddant adborth cyson gan ddatblygu hunan hyder y plant yn effeithiol, a'u canmol am ddyfalbarhau.

Mae ymarferwyr yn arsylwi'n rheolaidd ar y plant yn chwarae, gan gofnodi cynnydd plentyn mewn gwahanol feysydd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rannu'n gyson gyda'r tîm fel eu bod yn medru cefnogi plentyn gyda gwahanol agweddau. Er hyn, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llawn er mwyn cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn y dysgu.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a glân. Maent yn cau'r giât a does dim modd i ymwelwyr gael mynediad i'r lleoliad ar unrhyw adeg heb ganiatâd. Mae arweinwyr yn cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle. Maent yn sicrhau eu bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, ac yn eu cofnodi a'u dadansoddi. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr, sydd yn cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael. Mae arweinwyr yn cadw bwrdd gwybodaeth sydd yn dangos ystod o hysbysebion, posteri a gweithdrefnau perthnasol, sydd yn cefnogi rheoliadau a pholisïau'r lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr a rhieni yn cael gwybodaeth gyfredol mewn sawl ffordd.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd sydd yn groesawgar a chynnes gyda digon o le i chwarae a symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas a chyfleusterau golchi a sychu dwylo ynghyd ag ardal i newid clytiau mewn lle sydd yn meithrin annibynniaeth a phreifatrwydd. Maent yn trefnu'r amgylchedd yn effeithiol er mwyn sicrhau bod amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae addas i'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r ardal allanol wrth gefn yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd oherwydd nad yw wedi ei ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, prin yw'r cyfleoedd i blant fanteisio ar brofiadau chwarae cyfoethog yn yr awyr agored. Er hynny, mae'r arweinwyr yn trefnu cyfleoedd i'r plant ymweld â'r ysgol gynradd leol er mwyn defnyddio eu cyfarpar a chael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol trwy cydbwyso, seiclo, gwthio a dringo.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau amrywiol a phwrpasol i blant ar gyfer eu datblygiad a'u hoedran ac mae rhain wedi eu gosod ar lefelau isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at gyfarpar o safon, sydd yn eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae ymarferwyr yn annog cyfleoedd i'r plant brofi adnoddau amlddiwylliannol. Er enghraifft, doliau, llyfrau a gwisgoedd o wahanol gwledydd y byd. Maent yn sicrhau bod ganddynt amrywiaeth eang o ddodrefn a chyfarpar o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae rhain yn helpu i ysgogi diddordebau a dychymyg y plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod llawer o ddeunyddiau naturiol a darnau rhydd ar gael i'r plant eu harchwilio.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn cyd weithio'n effeithiol ac yn rhannu'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth cartrefol lle mae'r plant a'r ymarferwyr yn cydweithio'n hapus. Mae'r datganiad o ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Maent yn diweddaru polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn ateb gofynion. Ni nodwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio gyda'r rheoliadau na'r safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr

arolygiad. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi gwaith arweinwyr yn effeithiol er mwyn cynnal a datblygu'r ddarpariaeth o fewn y gymuned. Maent yn darparu cefnogaeth fuddiol ar gyfer ymarferwyr a sicrhau fod anghenion datblygiad y lleoliad yn cael sylw cyson. Defnyddir cyllid y ddarpariaeth yn effeithiol er mwyn cynnal anghenion datblygiad ymarferwyr a chyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Mae gan arweinwyr wybodaeth drylwyr am ansawdd gyfredol y ddarpariaeth. Maent yn cydweithio gyda phartneriaid fel tîm ymgynghorol yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogi er mwyn adnabod cryfder ac agweddau fyddai'n elwa o'u datblygu ymhellach. Mae arweinwyr yn treulio amser gydag ymarferwyr er mwyn craffu ar rediad y ddarpariaeth a thrafod yr anghenion o ran ychwanegu adnoddau, er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant.

Mae arweinwyr yn rhannu'r blaenoriaethau gwella yn gamau gweithredu clir, gyda dyddiad cyflawni a meini prawf llwyddiant addas ar gyfer adnabod pan fyddant wedi cyrraedd y nod. Er enghraifft, fe nodwyd fod angen datblygu ymwybyddiaeth y plant o wahaniaethau diwylliannol. Arweiniodd hyn at ychwanegu amrediad da o adnoddau, gan gynnwys llyfrau sydd a chymeriadau o wahanol gefndiroedd ethnig, ac ehangu profiad ac ymwybyddiaeth y plant yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi gwreiddio'n gadarn, gydag arsylwadau ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi ymarferwyr yn dda, ac yn eu galluogi i adnabod eu anghenion hyfforddi yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant ar gynllunio ymatebol, sydd wedi arwain at fagu eu hyder wrth gyflwyno dulliau sy'n ymateb i ddisgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae hyn wedi datblygu medrau addysgu'r ymarferwyr yn effeithiol, ac wedi cryfhau'r modd y maent yn cynllunio profiadau dysgu ar gyfer y plant.

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant effeithiol o rannu arfer dda ac ystyried datblygiadau o fewn y sector. Maent yn ystyried gwaith lleoliadau eraill er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach. Mae ganddynt berthynas agos gyda'r ysgol leol, sydd wedi arwain at ehangu ar brofiadau corfforol y plant yn fuddiol. Maent yn cydweithio gydag ysgolion yn lleol pan fydd plant yn barod i drosglwyddo i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae gan ymarferwyr berthynas gefnogol gyda rhieni a gofalwyr. Defnyddiant amrywiol ddulliau i rannu profiadau dysgu gyda rhieni er mwyn annog datblygiad a chynnal lles y plant. Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos gyda swyddogion yr awdurdod lleol a mudiadau ymbarél er mwyn cynnal a datblygu'r ddarpariaeth. Mae gan ymarferwyr berthynas agos gyda phartneriaid o fewn y gymuned, gan fwynhau digwyddiadau cymunedol fel digwyddiad i ddathlu Calan Gaeaf.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2025